

# Sul Un Byd

## Darllen: 1 Corinthiaid 12:12

Beth am i ni glustfeinio ar yr hyn ddigwyddodd yn y Swper ffarwel, y noson cyn i Iesu gael ei groeshoelio? Mae'r deuddeg gyda'i gilydd yn yr oruwchystafell, efo'i gilydd am y tro olaf, er bod un ohonyn nhw wedi gadael yr ystafell am fod ganddo dasg arbennig i'w chyflawni. Mae Jwdas yn gadael y criw: 'Yn union wedi cymryd y tamaid bara aeth Jwdas allan. Yr oedd hi'n nos' (Ioan 13:30). Mor wir oedd geiriau Ioan; roedd hi'n nos dywyll ar Jwdas, ac roedd hi hefyd yn nos dywyll ar y disgyblion eraill. Mae Iesu'n mynd ymlaen i ychwanegu at y tywyllwch trwy ddweud, 'Fy mhlant, am ychydig amser eto y byddaf gyda chwi' (Ioan 13:33), a thrwy ddweud y byddai'r disgyblion yn cael eu gwasgaru a'u gorthrymu ar ôl ei ymadawiad. Ond yng nghanol y tywyllwch, roedd Iesu ei hun yn gwbl hunan feddiannol gan mai hon oedd awr gogoneddu'r Mab, 'O Dad, y mae'r awr wedi dod. Gogonedda dy Fab, er mwyn i'r Mab dy ogoneddu di' (Ioan 17:1). Mae Iesu'n gweddio yma nid dros ei ddisgyblion oedd gydag ef y noson honno, ond dros ei ddisgyblion ar hyd yr oesoedd, sef yr Eglwys. Mae'n gweddio am undod. Gwyddai'n dda am y natur ddynol, a pha mor araf fyddai'r broses o sicrhau undod ymhlith ei bobl.

Rwy'n cofio'r sôn, yn y cyfnod yr oeddwn i yn yr ysgol uwchradd, am y Mudiad Eciwmenaidd a'r ymgyrchoedd a fodolai ymhlith arweinwyr yr eglwysi i geisio dod â'r enwadau'n nes at ei gilydd. Rwy'n cofio mynd un pnawn, pan oeddwn yn f'arddegau, i addoli yn un o gapeli'r pentref (aelod o'r Eglwys yng Nghymru oeddwn i bryd hynny), a'r blaenoriaid yn gofyn i mi arwain yr addoliad am nad oedd y pregethwr wedi cyrraedd. Cytunais innau, ond y fath halibalw yn ystod yr wythnosau dilynol - cerydd gan yr offeiriad a'r esgob am bregethu mewn capel, a minnau'n Eglwyswr!

Mae adlais o eiriau Iesu yn y Swper ffarwel yn dal i'n cyfareddu heddiw. Mor berthnasol oedd y cwestiwn a ofynnwyd mewn Cynhadledd Genhadol yng Nghaeredin mor bell yn ôl â 1910, pan ddaeth mil a mwy o Gristnogion

at ei gilydd. ‘Sut y gall Eglwys ranedig weinidogaethu i fyd rhanedig a drylliedig, a chynnig cymod i fyd lle nad oes cymod yn ei bywyd ei hun?’ Oni ddylem roi ein tŷ ein hunain mewn trefn cyn mynd ati i ddweud wrth eraill sut i ymddwyn?

A dyma ddod at y cwestiwn sy’n ein rhannu a’n dryllio, ac mae’n gwestiwn sy’n haeddu ein sylw. Dyma’r cwestiwn i’w ofyn ar Sul Un Byd. A ellir dod yn nes at ein gilydd heb i ni gefnu ar argyhoeddiad ac egwyddor? A all yr Anghydfurfwyr dderbyn trefn yr Eglwys Esgobol? Beth yw ystyr yr Olyniaeth Apostolaidd i Anghydfurfwyr? I rai, cwestiynau dibwys yw’r rhain, a dylen ni i gyd blygu i gwestiwn Iesu i Pedr ar lan Llyn Galilea, ‘Simon Fab Ioan, a wyt ti’n fy ngharu i?’ Dyna i gyd. A phwy a wŷyr na fydd Duw yn ein harwain i ffurfio eglwys newydd, a hynny am fod Iesu ei hun wedi gweddïo, ‘ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy fod ynom ni, er mwyn i’r byd gredu mai tydi a’m hanfonodd i’ (Ioan 17:21).

### **Myfyrdod pellach:**

Sut fyddech chi’n disgrifio beth yw ‘undod’ oddi mewn i’r Eglwys?

Ai breuddwyd gwrrach ydi’r syniad o ‘un byd’?